# Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr Uned Iechyd, Diogelwch a Lles

Gwybodaeth am bolisi preifatrwydd yr Uned Iechyd, Diogelwch a Lles, pam mae angen data arnom, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud â'r data a'ch hawliau.
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

## Pwrpas a sail gyfreithiol dros brosesu

Mae'r wybodaeth bersonol sydd gennym yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiad, ac mae'n cynnwys enwau, manylion cyswllt a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r digwyddiad. Gall hyn gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif.

Rydym yn cael yr wybodaeth bersonol hon yn uniongyrchol gan unigolion sy'n adrodd am y digwyddiad, a chan drydydd partïon at ddibenion cynnal ymchwiliad i'r digwyddiad a bodloni ein gofynion adrodd statudol.

Mae'n bosib y bydd angen i ni gysylltu ag unigolion ynghylch y digwyddiad a gofyn am ragor o wybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol at y dibenion hyn.

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth bersonol hon er mwyn cyflawni ein dyletswydd gofal i ddiogelu ein gweithwyr a'n contractwyr rhag risgiau i'w hiechyd, eu diogelwch a'u lles, ac i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Mae darparu'r wybodaeth hon yn ofyniad statudol a gallai methu â darparu'r wybodaeth arwain at yr ASB yn methu â chyflawni ei dyletswydd na ellir ei dirprwyo fel cyflogwr dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

Ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth bersonol gennych nad oes ei hangen arnom ni.

## Sut a ble rydym ni'n storio eich data a gyda phwy y gallwn ni ei rannu

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau statudol hyn y byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw (o'r dyddiad y daw i law) am 40 mlynedd o ran data canlyniadau gwyliadwriaeth iechyd a 3 blynedd (o'r dyddiad y daw i law) mewn perthynas â data sy'n gysylltiedig â digwyddiadau iechyd a diogelwch (damweiniau a fu'n agos at ddigwydd (near misses), damweiniau ag anafiadau, clefydau galwedigaethol a bwlio/aflonyddu).

Byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch pan fydd gennym rwymedigaeth i wneud hynny o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR).

I gael rhagor o wybodaeth am Sut a ble rydym yn storio eich data a gyda phwy y gallwn ei rannu, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

## Trosglwyddiadau rhyngwladol

I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau rhyngwladol, gweler yr adran Trosglwyddiadau Rhyngwladol yn ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.?

## Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE)

I gael rhagor o wybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd Dinasyddion yr UE, ewch i adran dinasyddion yr UE ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.?

## Eich hawliau

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, ewch i adran Eich hawliau ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.?

## Cysylltu â ni?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, eich gwybodaeth bersonol neu unrhyw gwestiynau am sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth, anfonwch e-bost at ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB, sef Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod.